

MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os bydd Offeryn Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
2. Gosodwyd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") gerbron dau dŷ'r Senedd ar 22 Gorffennaf 2019. Mae'r Rheoliadau ar gael yma:

<https://beta.parliament.uk/work-packages/z5kBsny2>

Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcanion

3. Mae Rheoliadau 2019 yn mynd i'r afael â methiant cyfraith yr UE a ddargedwir i weithio'n effeithiol ac â diffygion eraill a fydd yn deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Maent yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag iechyd planhigion i ddileu cyfeiriadau at rwymedigaethau'r UE.
4. Mae Rheoliad 2 o Reoliadau 2019 yn gwneud darpariaeth berthnasol. Mae Rheoliad 2 yn dileu'r cyfeiriadau at rwymedigaethau'r UE yn adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 a thrwy wneud, yn diddymu pŵer awdurdodau cymwys (yr awdurdod cymwys yng Nghymru yw Prif Weinidogion Cymru) i wneud gorchmynion yn unol â rhwymedigaethau'r UE.

Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS

5. Dyma'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Ddeddf 1967 gan Reoliadau 2019:

PART 1

Amendment of primary legislation relating to plant health

2. *In sections 2(1) and 3(1) of the Plant Health Act 1967, omit "or called for by any EU obligation".*

6. Mae'r diwygiadau ym mharagraff 6 yn ymwneud â phwnc iechyd planhigion sy'n bwnc sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac a allai fod yn bwnc Bil Cynulliad Cenedlaethol.
7. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu, ymhlith pethau eraill, y caiff y Cynulliad ddeddfu ar faterion ac eithrio'r rheini sydd wedi'u dargadw yn Atodlen 7A o'r Ddeddf honno.

Pam ei bod hi'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon

8. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban na Llywodraeth y DU ar bolisi'r cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau gwahanol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr i wneud yr un cywiriad yn arwain at ddyblygu, gan greu cymhlethdod diangen yn y llyfr statud. Mae cydsynio i'r OS hwn yn sicrhau bod un diwygiad yn cael ei wneud ar draws Prydain Fawr, sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Lesley Griffiths AC
Gweinidog dros Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

26 Gorffennaf 2019